

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 05/02/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

Rhif: 6

Cais Rhif: C17/1145/18/LL

**Dyddiad
Cofrestru:** 04/12/2017

Math y Cais: Llawn - Cynllunio

Cymuned: Llanddeiniolen

Ward: Bethel

Bwriad: Sied ar gyfer defnydd coedwigaeth, rhodfa a llecyn parcio (cais rhannol ôl-weithredol)

Lleoliad: Coed Bach Pengraig, Argraig, Seion, Llanddeiniolen, Caernarfon, Gwynedd, LL55 3AG

**Crynodeb o'r
Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 05/02/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais llawn rhannol ôl-weithredol yw hwn ar gyfer codi storfa ar gyfer defnydd coedwigaeth (i gadw boncyffion coed yn sych) ynghyd â llecyn parcio a chadw rhodfa 35m o hyd sy'n gwasanaethu'r sied o'r rhwydwaith ffyrdd lleol ar safle sy'n mesur 0.4ha. Mae sylfaen y sied eisoes wedi ei ddechrau a bydd y sied gorffenedig yn mesur 5m o led, 6m o hyd gyda uchder o 5m i'r crib ac bydd o ffurf triogl. Yn allanol, bydd y sied o wneuthuriad gorchudd rhychiog dur lliw gwyrdd gyda drysau o goedyn yn mesur 2m x2m. Mae maint a dyluniad y sied ychydig yn llai nag adeilad cyffelyb ar gyfer dibynion coedwigaeth a ganiatawyd yn ddiweddar ar safle gerllaw o dan cyfeirnod C16/0568/18/YA. Mae'r rhodfa i wasanaethu'r sied eisoes yn ei le ac o wyneb llechi/cerrig sial. Bwriedir defnyddio'r sied i storio boncyffion yn sych ar gyfer defnydd personol yr ymgeisydd.
- 1.2 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion gorllewinol coedlan a adnabyddir fel Coedlan Pen y Graig ar gyrion gorllewinol anheddle Seion i'r gogledd o Fethel. I'r gogledd lleolir y goedlan Parc Nant y Garth, 120m i'r dwyrain lleolir anheddau preswyl, oddeutu 50m i'r de lleolir yr annedd a anabyddir fel Pen y Graig ac i'r gorllewin lleolir tir amaethyddol. Cyflwyniwyd y cais hwn yn dilyn cadarnhad blaenorol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol na ellir delio gyda'r datblygiad drwy hysbyseb gan fod gwaith eisoes wedi dechrau ar y safle.
- 1.3 Cyflwyniwyd y cais i Bwyllgor gan y derbyniwyd 4 llythyr yn gwrthwynebu.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chymau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 (CDLL) mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017:-**
- Polisi PCYFF2 – meini prawf datblygu.
- Polisi PCYFF3 – dylunio a siapio lle.
- Polisi TRA4 – rheoli ardrawiadau cludiant.
- Polisi AMG5 – cadwraeth bioamrywiarth leol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 05/02/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

2.4 Polisiau Cenedlaethol:

NCT5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009).

NCT12 Dylunio (2016).

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

- 3.1 Hysbyseb o dan cyfeirnod C17/0984/18/YA ar gyfer codi sied i bwrpas coedwigaeth – cadaranhau yn Nhachwedd, 2017 bod angen cyflwyno cais llawn gan fod y datblygiad eisoes wedi ei ddechrau ar y safle.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref: Dim ymateb.

Uned Drafnidiaeth: Dim gwrthwynebiad.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dim gwrthwynebiad.

Uned Bioamrywiaeth: Dim gwrthwynebiad.

Ymgynghoriad
Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd gerllaw'r safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu eisoes wedi dod i ben a derbyniwyd 4 llythyr di-enw yn gwrthwynebu'r bwriad ar sail:-

- Datblygiad ôl-weithredol yn amharu'n andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal.
- Dim angen rhodfa na manau parcio i'r sied.
- Dim angen sied mor fawr o ystyried maint y safle.
- Datblygiad yn amharu'n andwyol ar fywyd gwyllt fel ystlumod.

Cyflwyniwyd gwrthwynebiadau nad ydynt yn gwrthwynebiadau cynllunio dilys:-

- Gosod cebl trydan i'r safle.
- Ymgeisydd eisoes wedi torri nifer o goed (nid yw'r weithred hon angen caniatad cynllunio gan nad oes gorchymyn coed arnynt).
- Amheuan ynglyn â chynlluniau dyfodol yr ymgeisydd ar gyfer y safle arbennig hwn.

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae Polisi PCYFF 2 o'r CDLL yn datgan gwrthodir cynigion os fyddent yn cael effaith sylweddol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau neu

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 05/02/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch. Mae Polisi PCYFF3 yn datgan caniateir cynigion, gan gynnwys estyniadau a newidiadau i adeiladau a strwythurau presennol os ydynt yn cydymffurfio â nifer o feini prawf sy'n cynnwys bod y cynnig yn ychwanegu neu yn gwella cymeriad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran y gosodiad, yr ymddangosiad, y raddfa, yr uchder, y mas a'r driniaeth i'r drychiadau; ei fod yn parchu cyd-destun y safle a'i le yn y dirwedd leol; ei fod yn defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r hyn sydd o'u hamgylch ac yn ymgorffori tirlunio medal; ei fod yn gwella rhwydwaith cludiant a chyfathrebu diogel ac integredig; eu bod yn cyfyngu rhediad dŵr a pherygl risg llifogydd ac atal llygredd; ei fod yn cyflawni dyluniad cynhwysol ac sy'n galluogi mynediad i bawb a'i fod yn helpu creu amgylcheddau iach a bywiog gan ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol. I'r perwyl hyn, felly, a chan ystyried cynnwys yr asesiad hwn, credir bod y datblygiad rhannol ôl-weithredol hwn yn dderbyniol mewn egwyddor.

Mwynderau gweledol

- 5.2 Lleolir y sied ar gyrion gorllewinol coedlan sefydledig a adnabyddir fel Pen y Graig ar gyrion anheddle Seion gyda'r hawl tramwy cyhoeddus agosaf wedi ei leoli oddeutu 149m i'r de-orllewin o'r safle. Bydd y sied coedwigaeth ar ffurf strwythur triongl ac o wneuthuriad gorchudd dur rhychiog lliw gwyrdd (gellir sicrhau arlliw gwyrdd tywyll addas drwy amodi unrhyw ganiatad cynllunio). Er bod sylfaen y sied wedi ei leoli ar lwyfandir o fewn y safle ac er bod gwrthwynebiadau wedi eu derbyn parthed ad-drawiad gweledol y sied credir na fydd yn creu strwythur anghydnaws sylweddol o fewn y tirlun lleol gan ystyried ei osodiad, dyluniad a'i edrychiad o fewn y goedlan ei hun. Ni chredir ychwaith bod y rhodfa cysylltiedig sydd eisoes wedi ei greu o fewn y safle ynghyd â'r llecyn parcio yn tansilio mwynderau gweledol yr ardal gan ystyried natur anffurfiol y rhodfa/man parcio a'u bod wedi eu gwynebu o ddefnydd naturiol ac hydraiddd sy'n galluogi i wyrddni ledaenu ar wyneb y llechi/cerrig sial. Credir, felly, i'r datblygiad fod yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PCYFF3 o'r CDLL.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.3 Lleolir yr annedd agosaf i'r sied oddeutu 60m i'r de-dwyrain gyda anheddau preswyl eraill o fewn anheddle Seion wedi eu lleoli oddeutu 120m i'r dwyrain. Gan ystyried graddfa a natur y sied ynghyd â'i ddefnydd ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau coedwigaeth credir na fydd y datblygiad yn amharu'n sylweddol ar fwynderau cyffredinol a phreswyl deiliaid cyfagos ar sail aflonyddwch swm. Rhaid ystyried hefyd nad oes cyfyngiadau cynllunio ar gyfer torri'r coed presennol sydd o fewn y goedlan gan nad oes gorchymun coed arnynt ynghyd â'r ffaith nad yw'r gwrthwynebiadau a gyfeiriwyd atynt uchod yn ymwneud â'r datblygiad yn amharu'n andwyol ar fwynderau preswyl trigoion cyfagos. I'r perwyl hyn, felly, ac yn ddarostyngedig ar gynnwys amod mewn unrhyw ganiatad cynllunio sy'n cyfyngu defnydd y sied i ddefnydd amaethyddol/coedwigaeth ynghyd â defnydd personol yr ymgeisydd, credir bod y cais yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PCYFF2 o'r CDLL.

Materion trafndiaeth a mynediad

- 5.4 Cysylltir y safle i'r rhwydwaith ffyrdd lleol gan rhodfa breifat sydd hefyd yn gwasanaethu anheddau preswyl ynghyd â'r goedlan gyfochrog a safle'r cais a adnabyddir fel Parc Nant y Garth. Nid oes gan yr Uned Drafndiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan fod y safle y tu hwnt i'r rhwydwaith ffyrdd mabwysiedig lleol ac o faint sy'n anhebyg o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith leol. I'r perwyl hyn, felly, credir bod y cais yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi TRA4 o'r CDLL.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 05/02/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	PWLLHELI

Materion bioamrywiaeth

- 5.5 Gan fod y safle wedi ei leoli oddi fewn i goedlan sefydledig ymgynghorwyd gyda Uned Bioamrywiaeth y Cyngor. Cadarnhawyd bydd y sied yn galluogi i reoli Rhodedendron o fewn y safle ac, felly, yn cynhyddu gwerth bioamrywiaeth y goedlan. I'r perwyl hyn, felly, credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi AMG5 o'r CDLL.

6. Casgliadau:

- 6.1 Wedi ystyried yr holl sylwadau ac ymatebion a dderbyniwyd, yr holl bolisiau a materion cynllunio perthnasol ni chredir byddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar fwynderau preswyl, gweledol, diogelwch ffyrdd a bioamrywiaeth a chan ystyried yr asesiad hwn ni chredir bod y datblygiad rhannol ôl-weithredol yn groes i bolisiau perthnasol hyn.

7. Argymhelliad:

- 7.1 Caniatau – amodau:-

1. Yn unol â'r cynlluniau.
2. Lliw gwyrdd tywyll i'r edrychiadau allanol.
3. Cyfyngu'r defnydd i ddefnydd coedwigaeth.
4. Cyfyngu'r datblygiad i ddefnydd personol yr ymgeisydd ac nid ar gyfer defnydd busnes.
5. Lliw gwyrdd tywyll i'r gorchudd proffil dur.